**Dinas a Sir Abertawe**

# Nodiadau'r Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 29 Hydref 2018 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P R Hood-Williams (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|
| C Anderson | M Durke |
| K M Griffiths | P K Jones |
| S M Jones | D W W Thomas |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Huw Fyfe | Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar Bae'r Gorllewin |
| William Evans | Aelod y Cabinet - Gwasanaethau Plant (Pobl Ifanc) |
| Elliott King | Aelod y Cabinet - Gwasanaethau Plant (Blynyddoedd Cynnar) |
| Carl Matthews | Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar Bae'r Gorllewin |
| Amanda Turner | Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar Bae'r Gorllewin |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Julie Thomas | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): Y V Jardine

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o gysylltiadau.

2 **Nodiadau cyfarfod 28 Awst 2018**

Cytunodd y panel ar y nodiadau fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

3 **Cwestiynau'r Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod.

4 **Y Diweddaraf am y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid**

Roedd Amanda Turner, Huw Fyfe a Carl Matthews o Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar Bae'r Gorllewin yn bresennol i friffio'r Panel ar berfformiad ac ateb cwestiynau.

Pwyntiau i'w trafod:

- Nifer y plant a phobl ifanc sy'n troseddu am y tro cyntaf yn gostwng yn sylweddol.
- Abertawe oedd yr awdurdod cyntaf i gyflwyno'r system bureau
- Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid edrych ar astudiaethau achos etc i nodi a phrofi bod ymyrryd â phobl ifanc yn gweithio.
- Byddai'n ddefnyddiol i olrhain oedolion ifanc i weld a yw ymyrryd yn parhau i weithio unwaith bydd pobl ifanc yn troi'n 18 oed.
- Gostyngodd nifer y dedfrydau o garchar a osodwyd ar bobl ifanc yn yr ardal i 9 yn 2017/18. Dyma stori lwyddiant go iawn.
- Lleihawyd y gyllideb ar gyfer Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Bae'r Gorllewin o £4.2m yn 2015/16 i £3.68m yn 2017/18. Nid oes unrhyw effaith negyddol ar berfformiad wedi bod, ac nid oes neb wedi colli swydd yn orfodol o ganlyniad i hyn. Bellach, mae 19 o swyddi a rennir ar draws y rhanbarth o'u cymharu ag 11 yn 2017/18. Dyma stori gadarnhaol iawn ar gyfer cydweithio.
- Mae cysylltiadau cryf rhwng y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid rhanbarthol a'n Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ni yn yr awdurdod ac Info-nation felly mae ymagwedd integredig ar waith.
- Nid oes gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid fynediad uniongyrchol at Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS). Mae achos yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Iechyd dros gael llwybr diffiniedig i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc mewn modd amserol.
- Mae'r panel yn teimlo nad yw'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc yn gweithio'n effeithiol. Codir y mater ar nifer o fforymau gan gynnwys y Panel Craffu Addysg.
- Pryder am effaith Pen-y-bont ar Ogwr yn gadael Bae'r Gorllewin. Ar hyn o bryd mae 19 o swyddi a rennir yn y rhanbarth. Mae'n rhaid sicrhau nad yw un o'r 3 ardal dan anfantais, yn enwedig plant a phobl ifanc yr ardaloedd.

5 **Monitro Perfformiad (gan gynnwys BAYS +)**

Aeth Julie Thomas, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, drwy'r adroddiad perfformiad ar gyfer mis Medi 2018 gan amlygu'r prif bwyntiau ac ateb cwestiynau'r panel.

Pwyntiau i'w trafod:

- Plant sy'n Derbyn Gofal (tudalen 2) - mae'r adran yn ymgymryd ag archwiliad gan fod tuedd ar i fyny wedi bod yn y ffigwr hwn. Cynllun i ddod ag adroddiad briffio i gyfarfod y panel ym mis Rhagfyr.

- Mae'r panel yn teimlo bod yr adran yn mynd yn y cyfeiriad iawn ond mae nifer o faterion y mae angen i'r panel gadw llygad arnynt.

Camau Gweithredu:

- Ychwanegu 'Adrodd ar Archwiliad Plant sy'n Derbyn Gofal' at y rhaglen waith ar gyfer mis Rhagfyr 2018

6 **Adborth ar yr Adroddiad Arolygu**

Darparodd Julie Thomas adborth i'r panel ar y canfyddiadau a'r meysydd i'w gwella o ddau arolygiad a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Gorffennaf 2018 - sef arolygiad llawn o wasanaethau plant yr awdurdod ac arolygiad o Faethu Abertawe.

Pwyntiau i'w trafod:

- Mae Maethu Abertawe wedi derbyn adroddiadau cadarnhaol yn gyson mewn arolygiadau.
- Mae'r panel yn teimlo bod yr adroddiad arolygu am y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn wych ar y cyfan ond mae modd gwella o hyd. Mynegodd y panel ddiolchgarwch i Julie a gweddill y tîm gan fod y cynnydd a wnaed yn ganlyniad i waith caled ac ymrwymiad ac yn wych. Mae Julie'n hapus iawn â'r adroddiad ond heb fod yn hunanfodlon a dyna pam mae'r cynllun gwella ar waith.
- O safbwynt craffu, bydd y panel yn parhau i graffu ar y gwasanaeth a chynnig awgrymiadau ac argymhellion er mwyn gwella.

7 **Amserlen Rhaglen Waith 2018/19**

Ystyriodd y panel y rhaglen waith.

8 **Llythyrau**

Llythyrau a dderbyniwyd ac a ystyriwyd gan y panel.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.05pm.